

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWDYD 28 MAI 2020 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Meinir James (Cadeirydd), Rheinallt Jones, Mair Stephens, Shan Rees, Elfyn Williams, Richard John, Janet Knott ac Arfon Davies (Clerc)

Ymddiheriadau: Y Cyng Eifion Jones, Philip Davies a Viv Davies.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth 2020.

4. Materion yn codi

1. Sedd wag am Aelod o'r Cyngor – Adroddodd y Clerc fod y sedd wag ar y Cyngor yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Ronald Thomas wedi cael ei adrodd i'r Cyngor Sir gyda rhybudd i'w arddangos o'r 8fed Mehefin. Pe bai etholiad yn cael ei alw, oherwydd sefyllfa bresennol COVID-19 ni fyddai'n bosibl ei gynnal tan rhwng 1af Chwefror a 16eg Ebrill 2021. Pe na bai etholiad yn cael ei alw, byddai'r Cyngor yn gallu symud ymlaen gyda chyfetholiad aelod newydd. Nodwyd.

2. Cyffordd Bolahaul gyda'r A484 yng Nghwmffrwd - Nododd y Clerc fod yr arwydd adborth wedi'i osod gyda thaliad o'r cyfraniad £500.00 gyda TAW i'r Cyngor Sir wedi'i gymeradwyo. Nodwyd.

3. Difrod i'r palmant oherwydd datblygiad preswyl - Rose and Crown, Llandyfaelog – Roedd y mater yn parhau i derbyn ystyriaeth. Nodwyd byddai'r fynedfa'n cael ei symud a bydd hyn yn cwblhau'r gwaith.

4. Pryderon am ddiogelwch y ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog â'r A484 – Ni dderbyniwyd unrhyw gynnydd pellach gyda'r archwiliad o gynigion ar gyfer y gyffordd. Nodwyd.

5. Prosiect uwchraddio goleuadau cyhoeddus LED – Nodwyd bod 10 colofn oleuadau yn ardal Upland Arms yn aros i gael eu cwblhau.

6. Goleuadau o amgylch Ysgol Bro Myrddin - Derbyniwyd e-bost yn cadarnhau bod mesurau arbed ynni wedi'u clustnodi ar gyfer yr ysgol fel rhan o raglen ynni Cymru. Roedd hyn wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. Roedd y goleuadau allanol hefyd yn cael eu hystyried gyda chynllun gwaith i'w adolygu pan fydd y cloi yn cael ei lleihau. Nodwyd.

7. Atgyweirio goleuadau ffordd cerdded – Roedd cwblhau'r gwaith o osod y golau newydd ar gyffordd GD Harries yn Idole yn cael ei aros gyda'r contractwr yn gwneud gwaith brys yn unig yn ystod y sefyllfa bresennol. Nodwyd siom eto'r gyda diffyg cynnydd gyda golau panel solar yn Idole. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r cwmni bysiau ar y mater.

8. Newid hysbysfyrdau a phlannwr – Nododd y Clerc fod tri hysbysfwrdd ac un plannwr newydd wedi cael eu darparu i safon uchel. Roedd y taliad grant o £500.00 o'r Cyngor Sir bellach wedi'i dderbyn. Nodwyd.

9. Pryderon Diogelwch Priffyrdd ar y B4309 ym Mancycapel – Derbyniwyd e-bost wrth adran Briffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau bod y gweithgor cyflymder yn gobeithio cwrdd ym mis Mehefin o bell gan fod y cyfarfod gwreiddiol wedi'i gohirio.

Er hynny, derbyniwyd cyngor o'r trafodaethau cychwynnol ei bod yn annhebygol byddai gweithredoedd yn cael eu cefnogi. Nodwyd.

10. Bin sbwriel ar gyfer lloches bws cyfeiriad Cydweli yn Llandyfaelog – Roedd y Clerc wedi gofyn am adnewyddiad wrth y Cyngor Sir.

11. Triniaeth mwsogl ac ysgubo Llandyfaelog - Nododd y Clerc fod yr ymweliad safle a drefnwyd wedi'i gohirio oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a bod gwybodaeth am y gwaith yr oedd ei angen wedi'i anfon at y Cyngor Sir. Roeddynt wedi ymweld ac yn edrych i wneud gwaith pan yn bosibl. Nodwyd.

12. Apêl mewn perthynas â chais cynllunio W/37191 yn y Stablau, Ffordd Bolahaul, Cwmffrwd - Cadarnhaodd y Clerc fod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi cytuno'r apêl ac wedi rhoi caniatâd cynllunio. Nodwyd.

13. Goleuadau Cyhoeddus yng Nghyffordd Llandyfaelog - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater. Codir hyn gyda'r cwmni bysiau am gefnogaeth.

14. Cadw Cymru'n Daclus - Pecyn Cychwyn Lleoedd ar gyfer Natur -

Cadarnhaodd y Clerc fod pecyn cychwynnol yr Ardd Bywyd Gwylt wedi'i archebu a rhagwelir y byddai'n cael ei dderbyn ym mis Gorffennaf. Nodwyd.

15. Rhoddion a wnaed yng nghyfarfod mis Mawrth y Cyngor - Nododd y Cyngor y llythyrau diolch a dderbyniwyd gan Sioe Llandyfaelog, Neuadd Llandyfaelog, Cruse Sir Gaerfyrddin, Gwasanaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth Canser ac Age Cymru Sir Gar.

5. Gohebiaeth

- 1. Un Llais Cymru** - Rheoliadau awdurdodau lleol (coronafeirws) (cyfarfodydd) (Cymru) 2020. Esboniodd y Clerc y rheoliadau a oedd yn golygu y byddai modd cynnal cyfarfodydd y Cyngor trwy fideo-gynadledda pe bai angen tan fis Mai 2021. Cymeradwyodd y Cyngor y rheoliadau i'w defnyddio gan y Cyngor tra nad oedd cyfarfodydd yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog yn bosibl.
- 2. Un Llais Cymru** – Nododd y Cyng Mair Stephens ei diddordeb. Tanysgrifiad 2020-21. Cytunwyd talu'r tanysgrifiad o £202.00.
- 3. Ffederasiwn CFFl Sir Gaerfyrddin** - Gwahoddiad i'r rali flynyddol ar 9fed Mai a gafodd ei gohirio. Nodwyd.
- 4. Llwybr troed 29/3 - Rhwng Croesyceiliog a Phentrepoeth** - Nododd y Cyng Richard John bryderon a godwyd mewn perthynas â'r fynedfa i'r llwybr ym Mhentrepoeth a'r pryderon a godwyd mewn perthynas â chŵn / y posibilrwydd o gau / ailgyfeirio'r llwybr i ffordd o gartref preifat. Codwyd y mater gyda'r Cyngor Sir ac roedd bellach wedi'i ohirio hyd nes y byddai'r broses gloi COVID-19 yn cael ei lleihau.
- 5. Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda** - Cylchlythyrau ar gyfer Mawrth ac Ebrill. Nodwyd.
- 6. Cyngor Sir Gaerfyrddin** – Cytundeb Mannau Agored fel rhan o'r Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi darparu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer ardal Gymunedol Llandyfaelog.
- 7. Cyngor Sir Gaerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd y C2073 yng Nghroesyceiliog dros dro ar 21ain Ebrill am gyfnod o 2 ddiwrnod. Nodwyd.
- 8. Cyngor Sir Gaerfyrddin** – Cadarnhad o daliad 1/3ydd o braesept 2020-21 sef £7,666.66. Nodwyd.
- 9. Swyddfa'r Post** – Gwybodaeth am wasanaeth talu swyddfa'r post. Nodwyd.
- 10. Un Llais Cymru** – Cylchlythyr Ebrill. Nodwyd.
- 11. Gwasanaethau dosbarthu swyddfa'r bost ym Mhentrepoeth** - Nododd y Cyngorydd Richard John bryderon a fynegwyd bod dau eiddo yn ardal

Pentrepoeth wedi'u henwi'n 'Woodlands', codwyd hyn gyda'r Cyngor Sir a Swyddfa'r Post. Nodwyd bod y mater wedi cael ei gau gan ei bod yn ymddangos bod perchnogion yr ail Woodlands, bellach wedi newid yr enw.

- 12. Ynni Sir Gar** – Gwybodaeth am brosiect plannu coed cymunedol yr Ymddiriedolaeth Coetir. Nodwyd.
- 13. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am wybodaeth am unrhyw eiddo gwag neu oedd ddim yn cael eu defnyddio yn yr ardal oherwydd sefyllfa COVID-19 neu fel arall. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi darparu'r manylion angenrheidiol.
- 14. Draeniau wedi'u rhwystro yn ardal Heol y Lan** - Roedd y Cynghorydd Elfyn Williams wedi nodi pryderon mewn perthynas â'r mater ac roedd y Clerc wedi codi gyda'r Cyngor Sir. Nodwyd.
- 15. Banc Barclays** – Datganiadau, roedd y Cynghorydd Elfyn Williams wedi cario allan yr adolygiad chwarterol o'r cysoniad banc. Nodwyd.
- 16. Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
- 17. Atgyweirio goleuadau ffordd cerdded** - Adroddwyd i'r Cyngor Sir am ddiffygion gyda goleuadau ffordd cerdded yn Gapel Penygraig a Star Forge. Nodwyd.
- 18. Atgyweirio heol Capel Penygraig i Gwmffrwd** - Roedd adroddiad wedi'i wneud i'r Cyngor Sir am atgyweiriadau oedd eisiau i'r heol rhwng Capel Penygraig a Cwmffrwd, ac roedd y gwaith wedi cael eu gwneud. Nodwyd.

6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

- 1. Prosiect plannu coed SyM** – Nodwyd bod y coed wedi'u plannu ond bod y digwyddiad a drefnwyd i nodi'r achlysur wedi'i gohirio, nodwyd bydd y digwyddiad yn cael ei aildrefnu.

7. 75ain Penblwydd diwedd yr Ail Ryfel Byd

Nodwyd bod y digwyddiadau a gynlluniwyd i nodi 75 mlynedd ers diwedd yr ail ryfel byd yn Ewrop wedi cael eu canslo gan sefyllfa barhaus COVID-19. Bydd digwyddiadau posib ar gyfer Pen-blwydd 75ain Diwrnod VJ yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

8. Wefan hygyrch

Cadarnhaodd y Clerc fod cynnydd yn cael ei wneud gyda'r wefan.

9. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Nododd y Cyng Meinir James ei diddordeb yn y mater. Cadarnhaodd y Clerc fod Michael Leefe wedi cychwyn fel Atgyweiriwr ar 1af Mawrth gyda oriau wedi gweithio bob mis fel a ganlyn hyd yn hyn:

- Mawrth – 28 awr - £420.00
- Ebrill – 32 awr - £480.00
- Mai – 32 awr - £480.00

Darparodd yr Atgyweiriwr gynnig ar gyfer paratoi, glanhau a phaentio'r tŷ pwmp a'r pwmp yn Llandyfaelog sef 16 awr (£240) ynghyd â defnydd £20. Cytunwyd hyn.

Cytunwyd i wahodd yr Atgyweiriwr i ddod i gyfarfod nesaf wyneb yn wyneb y Cyngor.

10. COVID-19

Trafododd aelodau'r sefyllfa barhaus COVID-19 a'i heffaith ar y Gymuned. Nodwyd bod y CFfl wedi cynnig eu cymorth yn y Gymuned. Roedd yna wasanaeth cymorth hefyd yn Llandyfaelog. Nodwyd gwaith caled y GIG a gweithwyr gofal yn ystod yr argyfwng. Bydd llythyr yn cael ei danfon at y Cyngor Sir yn diolch am waith ymroddedig y gweithwyr gofal cymdeithasol gydag ymweliadau cartref.

11. Cystadleuaeth Gardd

Nododd y Cadeirydd, oherwydd sefyllfa barhaus COVID-19, fod y penderfyniad wedi'i wneud i ohirio cystadleuaeth 2020. Cytunwyd hyn gan y Cyngor.

12. Adroddiad Cyllid 2019-20

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad cyllideb 4ydd chwarter ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019-20. Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith.

13. Adroddiad Blynyddol 2019-20

Cyflwynodd y Clerc y ffurflen flynyddol a archwiliwyd yn fewnol gan Mr. Mark Gower. Derbyniwyd a nodwyd adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ardystio a llofnodi'r ffurflen flynyddol. Nodwyd bod arian wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn £24,830.

Cadarnhaodd y Clerc oherwydd y sefyllfa barhaus COVID-19 bod y trefniadau arferol ar gyfer hysbysebu'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwr yn cael eu gohirio gan na fyddai'n bosibl caniatáu mynediad i Swyddfeydd y Cyngor / Clerc o dan yr amgylchiadau. Hefyd, gellir gohirio dyddiad yr archwiliad y tu hwnt i'r dyddiad cau gofynnol ar 30ain Medi. Felly, os bydd angen, byddai rhybudd yn cael ei arddangos yn y Gymuned yn cadarnhau hyn fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Cytunodd y Cyngor y Ffurflen Flynyddol a chwblhawyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r ffurflen.

Cytunwyd y Cyngor daliad y ffi Archwilio sef £60.00. Byddai llythyr o ddiolch yn cael ei danfon at Mr. Gower hefyd.

14. Cytundeb Yswiriant 2020-21

Nododd y Clerc y prisiau a dderbyniwyd gan Brocer Yswiriant y Cyngor Came and Company fel a ganlyn:

- Pen Underwriting £686.58

- Hiscox £903.37
- Ecclesiastical £822.64

Penderfynodd y Cyngor gytuno ar y polisi gyda Pen Underwriting ar gyfer y flwyddyn 2020-21.

15. Archwilydd Mewnol 2020-21

Cytunodd y Cyngor i benodi Mr. Mark Gower yn Archwilydd Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21.

16. Dadansoddiad Risg 2020-21

Ystyriodd y Cyngor Ddadansoddiad Risg drafft 2020-21 a gyflwynwyd gan y Clerc. Cynigiwyd newidiadau i'r adran salwch a fydd yn cael eu cyflwyno i'w cytuno yn y cyfarfod nesaf.

17. Adroddiad Cyflogau Staff, Lwfansau Aelodau a Chontractau 2020-21

Cytunwyd Cyngor cau allan y cyhoedd â'r wasg o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem oherwydd natur y wybodaeth i drafod.

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a chytunwyd yr eitemau canlynol.

a) Glanheuwr Arosfeydd Bysiau

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cadw taliad ar gyfer arosfan bysiau Croesyceiliog fel £100 y flwyddyn.

b) Atgyweiriwr

Atgyweiriwr yw Michael Leefe gyda thaliad o £15.00 yr awr.

c) Clerc y Cyngor

Cytunwyd i gadw'r pwynt tâl presennol ar frig y raddfa berthnasol ym mhwynt 29, sef £7,297.03 ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Cyngor dalu lwfans o £25.00 y mis ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn cynnwys lwfans gweithio cartref CTEM (£18.00 y mis ar hyn o bryd).

Cadarnhaodd y Cyngor y dylid talu'r lwfans teithio angenrheidiol a dalwyd ar gyfradd lwfans milltiroedd CTEM (45c y filltir ar hyn o bryd).

d) Lwfans Costau Aelodau

Rhoddodd y Clerc fanylion Adroddiad Blynyddol a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Nododd y Cyngor ei bod yn ofynnol iddo wneud swm o £150 ar gael i aelodau mewn perthynas â chostau. Bydd hyn yn cael ei dalu ym mis Chwefror 2021. Byddai

Aelodau yn rhoi gwybod i'r Clerc yn ysgrifenedig os nad oeddent yn dymuno derbyn y taliad.

Cytunodd y Cyngor ymhellach i beidio â gwneud y swm o £500 ar gyfer aelodau â chyfrifoldebau penodol ar gael. Nodwyd fod Lwfans y Cadeirydd am y flwyddyn yn cael ei phenderfynu yn y Cyfarfod Blynyddol.

18. Cynllunio

- W/40327** – Plot yn Gae Cwmale, Pentrepoeth, Idole, SA32 3DH. Evans. Dim gwrthwynebiadau.
- W/40350** - Dileu amodau 1,9,10,11,14 (cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl, bae pasio, SUDS, rheoli dŵr wyneb, manylion llwybrau clustogi) ac amrywiad amod 13 ar W/31450 (llain glustogi). Mr Derrick Phillips, tir ger Maesglasnant, Cwmffrwd, SA31 2LR. Dim gwrthwynebiadau.
- W/40429** - Adnewyddu cartref gyda estyniad un llawr cefn newydd ac ardal patio uchel. Anne Stephens, School House, Llandyfaelog, SA17 5PP. Dim gwrthwynebiadau.

19. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

- Ambiwlans Awyr Cymru** - Cytunwyd cyfraniad o £50.00.
- Tenovus** - Dim cyfraniad.
- Tarian Cymru** - I'w ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Cytunwyd i wneud y taliadau ychwanegol canlynol er cof am y Cyngorydd Ronald Thomas fel a ganlyn:

- Eglwys St Maelogs** - Cytunwyd cyfraniad o £25.00.
- Adran Oncoleg Ysbyty Singleton** - Cytunwyd cyfraniad o £25.00.
- Marie Curie** - Cytunwyd cyfraniad o £25.00.

20. Cyfrifon

a) Cytunwyd y taliadau canlynol (nododd y Clerc fod taliadau 1-7, a wnaed ym mis Ebrill wedi'u cymeradwyo trwy e-bost cylchol a anfonwyd at yr holl aelodau):

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Mawrth a costau	£615.04 £18.00	£7.00 £11.70	£651.74	£124.40	£0.00	£527.34

- | | | |
|---------------------------|-----------|---|
| 2. Cyllid a Tollau EM | £373.20 | Treth Ionawr - Mawrth |
| 3. Michael Leefe | £420.00 | Atgyweiriwr Mawrth (gweler eitem 9) |
| 4. Cyngor Sir Caerfyrddin | £3,099.03 | Goleuadau Cyhoeddus 2019-20 |
| | | £2,582.52 gyda TAW £516,51 |
| 5. Cyngor Sir Caerfyrddin | £600.00 | Cyfraniad arwydd adborth |
| | | (gweler eitem 4.1 £500.00 gyda TAW £100.00) |

6. Urban Leisure £936.00 **Atgyweirio offer chwarae yn Cae Idole yn dilyn arolygiad blynyddol**
7. Un Llais Cymru £202.00 **Aelodaeth 2020-21 (gweler eitem 5.1)**

8.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Ebrill a costau	£615.04 £18.00	£7.00 £21.60	£661.64	£124.40	£0.00	£537.24

9. Comisiynydd Gwybodaeth £40.00 **Cofrestru 2020-21**
10. Michael Leefe £480.00 **Atgyweiriwr Ebrill (gweler eitem 9)**
11. Mark Gower £60.00 **Archwiliad Mewnol (gweler eitem 13)**
12. Came and Company £686.58 **Polisi Yswiriant (gweler eitem 14)**

13.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Mai a costau	£615.04 £18.00	£7.80 £7.00 £18.45	£666.29	£124.40	£0.00	£541.89

14. Michael Leefe £480.00 **Atgyweiriwr Mai (gweler eitem 9)**
15. Amviwlans Awyr Cymru £50.00 **Rhodd (gweler eitem 19.1)**
16. Eglwys St Maelogs £25.00 **Rhodd (gweler eitem 19.4)**
17. Adran Oncoleg £25.00 **Rhodd (gweler eitem 19.5)**
Ysbyty Singleton
19. Marie Curie £25.00 **Rhodd (gweler eitem 19.6)**

21. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Trafodwyd materion sbwriel a thaflu anghyfreithlon yn y Gymuned.
2. Nodwyd bod partner cyn-gadeirydd y Cyngor, Arthur Davies, Mike, wedi marw yn ddiweddar.
3. Nodwyd bod gwraig cyn Clerc y Cyngor, y diweddar Lyn Lewis, wedi marw yn ddiweddar.
4. Diolchwyd i'r Clerc am sicrhau fod y cyfarfod yn gallu cael ei gynnal o dan y rheoliadau newydd.

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 2il Gorffennaf 2020.